

Ffurflen a datganiad gwariant ymgeisydd ar gyfer etholiadau cymunedol yng Nghymru

Dylech ddarllen y canllawiau cysylltiedig ar gyfer [Rhan 3
Gwariant a rhoddion ar gyfer Etholiadau Lleol yng Nghymru](#) i
gael gwybodaeth am:

- y terfyn gwariant
- y cyfnod a reoleiddir
- beth yw gwariant ymgeisydd
- gwariant tybiannol

Rydym yn rhoi canllaw cyflym yma am yr hyn sy'n wahanol pan
fyddwch yn ymladd mewn etholiadau cymunedol.

Ar gyfer pwy y mae'r ffurflen hon:

Ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad cymunedol p'un a ymleddir yr
etholiad ai peidio.

Y ffurflen gwariant

Chi sy'n gyfrifol am gadw eich gwariant o fewn y terfyn
gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Rhaid i chi gwblhau'r ffurflen a datganiad ymgeisydd a'u
cyflwyno i'ch swyddog canlyniadau o fewn **28 diwrnod
calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.

Cofnodi gwariant Ymgeisydd

Rhaid i chi gadw cofnod o'ch holl wariant ymgeisydd a rhaid i
chi gadw anfonebau neu dderbynebau ar gyfer pob taliad o
£10 neu fwy. Rhaid i chi gyflwyno'r anfonebau a'r derbynebau
hyn gyda'ch ffurflen.

Ar ôl yr etholiad

Anfonebau

Rhaid i chi gael yr holl anfonebau gan gyflenwyr o fewn **14 diwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.

Os na fyddwch yn cael anfoneb o fewn y terfyn amser, bydd angen i chi gael gorchymyn llys cyn y gallwch ei thalu. Dylech hysbysu eich cyflenwyr o hyn.

Talu anfonebau

Rhaid i chi dalu'r holl anfonebau o fewn **21 diwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad. Os na fyddwch yn talu anfoneb o fewn y terfyn amser hwn, bydd angen i chi gael gorchymyn llys cyn y gallwch ei thalu.

Cyflwyno'r ffurflen

Rhaid i chi gwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon a'r datganiad i'r swyddog canlyniadau o fewn **28 diwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.



Os bydd unrhyw un o'r dyddiadau cau y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn yn syrthio ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, y dyddiad cau fydd y diwrnod gwaith cyntaf canlynol.



Nodiadau esboniadol

Manylion yr ymgeisydd a'r etholiad

Rhowch y manylion gofynnol o dan yr adran hon a llofnodwch y ffurflen.

Cyfrifwch eich terfyn gwariant a'i nodi ar y ffurflen.

Eich terfyn gwariant yw £806, ynghyd â 7c fesul etholwr llywodraeth leol yn y plwyf, y gymuned neu'r ardal cyngor tref rydych yn sefyll drosto/drosti.

Os ydych yn ymgeisydd ar y cyd, bydd angen i chi leihau eich terfyn gwariant:

- chwarter (25%) – pan mae dau ymgeisydd ar y cyd, neu
- traean (33%) - pan mae tri neu fwy o ymgeiswyr ar y cyd

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr etholaeth, sef nifer y bobl a oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o etholiad, gan eich Swyddog Canlyniadau.

Rhan 1: Crynodeb o wariant

Cwblhewch y tabl cryno i ddangos eich gwariant yn ystod yr ymgyrch etholiadol.

Dylid nodi'r holl wariant tybiannol a hawliadau heb eu talu yn y blychau penodol a ddarperir.

Os nad ydych wedi gwario unrhyw arian o dan gategori penodol, nodwch sero yn y blwch priodol.

Rhan 2: Taliadau

Dadansoddiad o wariant

Defnyddiwch y tabl hwn i roi dadansoddiad o'r holl daliadau sy'n creu'r symiau a ddangosir o dan gategoriâu A i I yn y tabl cryno (rhan 1).

Ar gyfer pob eitem o wariant, rhowch fanylion y canlynol:

- yr eitem neu'r gwasanaeth a ddefnyddiwyd
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y dyddiad y talwyd yr anfoneb
- y dyddiad y cafwyd yr anfoneb
- y swm a dalwyd
- rhif yr anfoneb neu'r dderbynneb. Mae angen anfoneb neu dderbynneb ar gyfer pob eitem gwerth £10 neu fwy ac eithrio gwariant tybiannol

Cofiwch nodi pan fyddwch yn cynnwys taliad sero.



B Hawliadau heb eu talu

Defnyddiwch y tabl hwn i roi mwy o wybodaeth am hawliadau sydd heb eu talu o hyd ar y diwrnod rydych yn cyflwyno'r ffurflen.

Ar gyfer pob hawliad, rhowch fanylion y canlynol:

- yr eitem
- y dyddiad y cafwyd yr anfoneb
- y swm
- y camau a gymerwyd neu'r camau a fydd yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r hawliad hwn

Dylech gynnwys manylion y llys rydych wedi cyflwyno cais iddo, neu y byddwch yn cyflwyno cais iddo, i wneud taliad hwyr.

C Datganiad o werth ar wariant tybiannol dros £50

Defnyddiwch y tabl hwn i sôn am yr holl eitemau o wariant tybiannol sy'n fwy na £50.

Nid oes angen i chi sôn am wariant tybiannol o £50 neu lai. Nid oes angen cynnwys hyn ar y ffurflen ac nid yw'n cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Ar gyfer eitemau o wariant tybiannol, dylech sôn am:

- yr eitem neu'r gwasanaeth a ddarparwyd
- cost fasnachol arferol yr eitem/gwasanaeth
- y gost wirioneddol rydych wedi'i thalu fel y cofnodwyd yn Rhan 2 tabl A
- gwerth y gwariant tybiannol
- pryd yr aethoch i'r gwariant hwn

Rhaid i chi lofnodi'r adran hon o'r ffurflen p'un a aethpwyd i unrhyw wariant tybiannol ai peidio.



Cwblhau a dychwelyd y ffurflen hon at y Swyddog Canlyniadau

Dylech gwblhau a dychwelyd y ffurflen at y Swyddog Canlyniadau ar gyfer eich ardal etholiadol. Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno o fewn **28 diwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.

Ynghyd â'r ffurflen, rhaid cyflwyno'r datganiad wedi'i lofnodi gennych i ddilysu'r ffurflen.

Os bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich ffurflen yn syrthio ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, y dyddiad cau fydd y diwrnod gwaith cyntaf canlynol.

Ble y gallaf gael rhagor o gyngor?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am wariant etholiadol ymgeiswyr, gallwch gysylltu â ni:

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

E-bostiwch ni yn: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ffoniwch ni ar 0333 103 1929

GWAG